

## WILLIAMS, ALICE MATILDA LANGLAND (1867-1950), neu Alys Mallt, ond yn fwy adnabyddus fel y Fonesig Mallt Williams awdur a Cheltgarwraig

**Enw:** Alice Matilda Langland Williams  
**Rhiant:** Jane Williams (née Robertson)  
**Rhiant:** John James Williams  
**Rhyw:** Benyw  
**Galwedigaeth:** awdur a Cheltgarwraig  
**Maes gweithgaredd:** Llenyddiaeth ac Ysgrifennu; Gwladgarwry  
**Awdur:** Evan David Jones

Ganwyd yn Aberclydach, Llanfeugan, sir Frycheiniog, 4 Hydref 1867, yn bedwerydd plentyn John James Williams, M.D. ('Brychan'), ac yn un o ddwy chwaer i **William Retlaw Jefferson Williams**. Daeth yn ieuanc o dan ddylanwad **Arglwyddes Llanofar**, a chadwodd ei diddordeb mewn mudiadau diwylliannol a gwleidyddol Cymreig a Cheltaidd ar hyd ei hoes. Cysylltir ei henw hi a'i chwaer Gwenfrida [ Cate ] ('Gwenfrida ferch Brychan') gydag enw'r **Arglwyddes** yn y gerdd ' An Diou Vag ' a gyfansoddodd François Jaffrennou ('Taldir') ar ôl eisteddfod Genedlaethol Caerdydd, 1899, a'i chyhoeddi yn *Gwerziou gant Abherve ha Taldir*, Saint-Brieuc, 1899. Hi a'i chwaer oedd ' The Dau Wynne ', awduron y nofelau *One of the Royal Celts ...*, Llundain, 1889, a *A Maid of Cymru ...*, eto, 1901. Bu'r chwaer farw yn 1914. Fel Maud Williams, Aberclydach, Mallt oedd yr ail i ymuno ag Urdd y Delyn a sefydlwyd gan **O. M. Edwards** yn 1896. Yr oedd yn gydysgrifenyddes â Gwyneth Vaughan i Undeb Y Ddraig Goch yn 1903. Am rai blynyddoedd bu'r mudiad hwn yn cyflwyno gwobrau am ganu penillion, canu'r delyn, darllen llyfrau Cymraeg a siarad Cymraeg. Yn ddiweddarach, rhoddai Mallt wobrwyon am gael telyn mewn eisteddfodau cenedlaethol o dan yr enw ' Gwobrwyon Aberclydach '. Hi oedd sefydlydd ac arweinydd Ysbiwyr y Frenhines ym Myddin Cymru drwy gyfrwng *Cymru'r Plant* o 1911 hyd tua 1916. Ymdynghedai'r aelodau i ' wasanaethu Cymru â'r galon, y meddwl, y tafod a'r llaw '. Erbyn hyn yr oedd hi wedi symud i fyw i Blas Gwynnon Dôl yn Llanarthne, Sir Gaerfyrddin. Yn 1915 symudodd drachefn i Blas Pantaeson ger Llandudoch yn Sir Benfro lle y treuliodd weddill ei hoes.

Preswyliai gyda'i brawd ieuengaf

### FREDERICK GEORGE ROBERTSON 'Jim' WILLIAMS ('Brychan')

Gadawsai Aberclydach pan etifeddodd ei frawd hynaf y stâd. Symudodd i Gapel Isaf ger Llandeilo ac yn 1916 prynodd stâd Plas Pantaeson gan symud yno gyda'i wraig 'Daisy' neu 'Modie', sef Hylfa Marguerite merch yr uchgapten Penry Lloyd. Ymddiddorai mewn fforestiaeth ac fel rhan o'i ymdrech i wella'r stâd plannodd goed yn helaeth. Fel Mallt ei chwaer yr oedd yn amlwg iawn mewn cynulliadau Celtaidd ar gyfrif ei wisg ar ffurf dybiedig gwisg arglwydd o Gymro o'r drydedd ganrif ar ddeg. Bu farw yn 75 oed ar 11 Ionawr 1945 a chluwydd ef i'w gladdu ym mynwent eglwys Wythr ar gambo. Disgrifir ef ar ei feddagraff fel 'Hollgelt'. Bu farw ei weddwr yn yr un lle 2 Chwefror 1952. Bu iddynt ddau fab ac un ferch.

Cydweithiodd yr hynaf o'r bechgyn, Ioan Penry Brychan Robertson, gyda'i fodryb Mallt i gyhoeddi *Llyfr Penblwydd* Cymraeg yn 1929. Dilynai Mallt gyfarfodydd mudiadau cenedlaethol Cymreig a Gwyddelig gyda mawr sêl a safai'n gadarn dros Gymreictod ar dafod ac mewn gwisg. Yn ei neges flynyddol i Ysbiwyr y Frenhines anogai'r aelodau i efelychu brwdfrydedd y Gwyddyl, ond bu'n daweog ar ôl Rhyfel Pasg 1916. Ar hyd y blynyddoedd bu'n gefn i'r Eisteddfod Genedlaethol, y mudiad drama yng Nghymru, Urdd Gobaith Cymru a Phlaid Genedlaethol Cymru. Yn ei blynyddoedd olaf ei chanpant hi oedd ar ben rhestr Cronfa Gwyl Dewi 'r Blaid. Yr oedd yn selog dros yr ymgyrch yn erbyn sefydlu gwersyll ymarfer i'r llu awyr ym Mhorth Neigwl a Phenyberth ac oddi wrthi hi y daeth yr awgrym am yr enw 'Ysgol Fomio'. Ni chyffyrddai â chigoedd ac arddelai ffydd dilynwy'r Mary Baker Eddy. Bu farw 28 Hydref 1950 ym Mhlas Pantaeson. Amlogwyd ei chorff ym Mhontypridd, a gwasgarwyd ei llwch ym mynwent Llananfraid, sir Frycheiniog. Ceir ei llun ar dud. 44 *Cymru*, xxix, 1905.

### Awdur

**Evan David Jones**, (1903 - 1987)

### Ffynonellau

*Cymru (O.M.E.)*, passim

*Cymru'r Plant* (Aberystwyth 1892-1987), passim

*Cardigan and Tivyside Advertiser*, 26 Ionawr 1945, 3 Tachwedd 1950

gwybodaeth gan W. W. Price, Selwyn Jones, J. E. Jones, G. M. Roberts, a Maureen Patch

Marion Loffler yn *Planet*, rhif. 121 (1997)

### Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q28360793

**Dyddiad cyhoeddi:** 1970

**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Preifatrwydd a Chwciis  
Hawlfraint  
Y Prosiect  
Cymorth  
Cysylltu

LGC  
NLW

LLYFRGEL  
THE NATION



Yn ddiwydwr gan  
Llywodraeth Cymru  
Sponsored by  
Welsh Government